Gwobrau Gwirfoddolwyr y Flwyddyn 2009 .

Yn flynyddol bellach, gwelir y Wobr arbennig yma fel cyfle i gydnabod a gwobrwyo pobl sydd wedi gwneud cyfraniad arbennig i'w cymunedau. Mae'r wobr yn cael ei gweinyddu gan y Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac ym mis Rhagfyr, bob blwyddyn, gosodir yr her i bobl ar draws Cymru i enwebu rhai sydd wedi eu hysbrydoli gyda'r hyn mae rhywun arall yn ei wneud yn wirfoddol. Mae pum categori sef:-

- person ifanc dan 25,
- oedolyn,
- gwirfoddolwr gwyrdd,
- ymddiriedolwr
- grŵp gwirfoddol.

Eleni, derbyniwyd 215 o enwebiadau drwy Gymru, a naw ohonynt o Wynedd – gydag o leiaf un ohonynt ymhob categori fel mae'n digwydd bod.

Yr ydym yn falch iawn fod un o'r naw yn enillydd cenedlaethol sef Mrs Bettina Harden sydd yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad, ac yn dod i'r brig yn genedlaethol yng nghategori **ymddiriedolwyr**.

Categori Ymddiriedolwyr

Bettina Harden - yn gwirfoddoli gyda Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad

Bettina yw sefydlydd, ysbrydoliaeth, mentor a'r egni tu ôl i Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad. Yn ôl yn 1999, ei gweledigaeth oedd cael rhannu harddwch a'r pleser sydd i'w gael yng ngerddi hanesyddol Cymru gyda phobl o dan anfantais neu rhai sydd gydag anabledd. Yn y flwyddyn 2000 llwyddodd i alluogi 2000 o bobl i ymweld â gerddi. Trwy ei gwaith di-flino, mae ardal yr Ymddiriedolaeth wedi ehangu dros Gymru gyfan ac i rannau o Loegr. Yn rheolaidd, mae Bettina yn gwirfoddoli am 7 niwrnod yr wythnos – yn datblygu syniadau newydd, yn ymchwilio i hanes gerddi, agor ei gardd ei hun i grwpiau Gateway, cefnogi a helpu gwirfoddolwyr eraill, yn ogystal â mynychu cyfarfodydd. Eleni, wrth i'r Ymddiriedolaeth ddathlu ei 10fed penblwydd, a Bettina ei hun hefyd yn dathlu penblwydd reit arbennig, mae'n braf cyhoeddi ei bod yn enillydd cenedlaethol. Teyrnged i'w gwaith di-flino yw'r nifer o ymwelwyr fu mewn gerddi y llynedd – dros 6000 o bobl. Mae ei brwdfrydedd a'i hymroddiad yn ei gwneud yn enillydd teilwng iawn o Wobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn 2009.

Enwebwyd gan Mrs Cath Baker, Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad.

Rhoddir cydnabyddiaeth i wyth person arall am eu hymroddiad i wirfoddoli - pob un ohonynt yn deilwng dystysgrif "Canmoliaeth Uchel' dan gynllun "Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2009".

Eto, yng ngahtegori Ymddiriedolwyr mae

Elinor Ellis - yn gwirfoddoli ym Mhlas Glyn y Weddw.

Wedi wyth mlynedd o fod yn gyd-lynydd gwirfoddolwr, penderfynodd Elinor ymddeol ar ddiwedd 2008. Yn ystod ei chyfnod, roedd yn rhoi oriau maith pob wythnos yn cyd-lynu a chefnogi hyd at 78 o wirfoddolwyr yn Oriel Plas Glyn y Weddw. Mae'r Oriel yn gwbwl ddibynnol ar gyfraniad tim gweithgar o wirfoddolwyr, ac roedd rôl Elinor yn allweddol i lwyddiant y Plas. Bu Elinor yn graig yn ei chefnogaeth i'r Oriel am bron i ddegawd, ac mae ei chyfraniad wedi bod o fudd i gannoedd o bobl. Mae hi'n llawn haeddu clod a chanmoliaeth uchel am ei chyfraniad.

Enwebwyd gan Gwyn Jones, Oriel Plas Glyn y Weddw.



Elinor Ellis yn derbyn ei thystysgrif gan Mr Aneurin Phillips—Prif Weithredwr Parc Cenedalethol Eryri. Ef oedd y siaradwr gwadd yn y Te Dathlu a Diolch i wirfoddolwyr a gynhaliwyd yn y Mynydd Gwefru, Llanberis yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr eleni.

Categori Gwyrdd
Mark Lawrence - yn gwirfoddoli gyda BTCV Cymru.

Mae Mark yn cyd-weithio gyda nifer o grwpiau yng Ngwynedd gyda phrosiectau amrywiol BTCV Cymru. Mae'r grwpiau yn cynnwys myfyrwyr mewn coedlannau, Ysgol Glan Cegin, grwpiau garddio yng Nghaernarfon yn ogystal â hostel i'r di-gartref **2**ym Mangor. Mae'n haeddu ei gymeradwyo am ei holl waith, ei natur gyfeillgar a'i barodrwydd i roi o'i amser yn gwbl ddi-gwyn.

Enwebwyd gan Jenny Crouch, BTCV Cymru

Categori Pobl Ifanc - Dan 25.

Mathew Penri Williams – yn gwirfoddoli gyda Lleisiau'r Llan.

Fel ysgrifennydd Lleisiau'r Llan, mae Mathew wedi bod yn ysbrydoliaeth i'r grwp cymunedol o Lanestyn o'r cychwyn. Prosiect y grwp oedd creu gardd allan o lain o dir yn y pentref ar gyfer cael lle i eistedd mewn cilfan o harddwch naturiol a man diogel i blant gael profiad o fyd natur. Er mai hogyn yn ei arddegau yw Mathew, mae'n anhygoel fod ganddo'r sgiliau i arwain yn ddoeth. Ef oedd yn gyfrifol am gael grantiau, cysylltu gyda gwahanol asiantaethau, cael amcan-brisiau a gwneud cynlluniau ar gyfer y llain. Ni fuasai Lleisiau'r Llan yn bodoli heb ei frwdfrydedd a'i awydd i i greu y llain er lles i'w gymuned. Mae'n llawn haeddu cymeradwyaeth uchel am ei waith caled.

Enwebwyd gan Catherine Theresa Evans – Cadeirydd Lleisiau'r Llan.

Categori Oedolion.

Marion Hughes – yn gwirfoddoli gyda Menter Fachwen.

Mae Menter Fachwen wedi bod yn cynorthwyo gyda phrosiectau ar gyfer plant gydag anableddau dysgu mewn ysgolion yn Kerala yn India. Mae Marion yn gwirfoddoli drwy fynd i ysgolion ac at grwpiau lleol yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o'r tlodi a'r problemau sydd yn India, yn ogystal â chodi arian tuag at y prosiect. Mae hi wedi llwyddo i greu cysylltiadau rhwng ysgolion yn India a Chymru sy'n gyfle i'r disgyblion rannu profiadau. Mae Marion hefyd yn gwirfoddoli yn y Ty Gwydr yn Menter Fachwen. Yn dilyn ei hymddeoliad yn ddiweddar, mae hi wedi defnyddio ei hamser i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl eraill – ac yn llawn haeddu clod am ei hymroddiad.

Enwebwyd gan Simon Higgins, Menter Fachwen.

Jenny Jones – yn gwirfoddoli gyda Relate Gogledd Cymru

Mae Relate yn gyfrifol am redeg Canolfan Gyswllt Plant ar y trydydd Sadwrn o bob mis ym Mangor. Nod y Ganolfan yw darparu amgylchedd diogel a chyfeillgar i blant gael treulio amser gyda rhiant, neu aelod arall o'u teulu, sydd ddim yn byw gyda hwy bellach oherwydd tor-perthynas. Gwirfoddolwyr sydd yn gyfrifol am redeg y Ganolfan, ac hyd yn ddiweddar, mae Jenny wedi bod yn gwirfoddoli'n rheolaidd gyda'r Ganolfan ers 8 mlynedd. Yn hollol ddihymongar, mae hi'n arwain ac yn ysbrydoli gwirfoddolwyr eraill i gyflawni gwaith anodd, sy'n gallu ar brydiau bod yn heriol. Mae hi wedi bod yn gyswllt lleol i nifer o sefydliadau, ac mae'n benderfynol o ail-afael ynddi – unwaith y bydd wedi gwella. Llongyfarchiadau iddi hithau ar dderbyn Canmoliaeth Uchel am ei hymroddiad i wirfoddoli.

Enwebwyd gan Alex Jaundrill, Relate Gogledd Cymru.

Mrs Glenys Parry - yn gwirfoddoli gyda Gwasanaethau Ambiwlans Cymru



Mae gwirfoddolwyr yn cynorthwyo Gwasanaethau Ambiwlans Gogledd Cymru drwy ddefnyddio eu ceir eu hunain i fynd â chleifion i apwyntiadau ysbytai. Mae hyn yn rhyddhau'r cerbydau ambiwlans ar gyfer achosion brys. Dros 45 mlynedd, mae Glenys wedi cludo cannoedd o gleifion i ysbytai. Gan ei bod yn dod o ardal Harlech, mae ei chyfraniad yn arbennig o werthfawr gan nad yw'n hawdd i'r henoed a'r anabl mewn ardaloedd gwledig gael eu trafnidiaeth eu hunain i'r ysbytai. Mae Glenys yn rhoi tri diwrnod yr wythnos o'i hamser i wirfoddoli, ac mae gan y cleifion feddwl y byd ohoni. Nid dyma'r tro cyntaf i Glenys gael ei henwebu am Wobr – derbyniodd Wobr Rhagoriaeth yn ddiweddar gan y Gwasanaethau Ambiwlans eu hun. Llongyfarchiadau iddi!

Enwebwyd gan Joan M Roberts, Gwasnaethau Ambiwlans Cymru.

Ernest Wright – yn gwirfoddoli gyda SSAFA

Mae Ernest Wright yn gwirfoddoli fel ysgrifennydd a Gweithiwr Achos Adran Arfon o SSAFA – sef mudiad sydd yn rhoi cefnogaeth i weithwyr a chyn-weithwyr y lluoedd arfog sef Soldiers, Sailors, Airmen and Families Association. Ers 2001, mae wedi trafod 203 o achosion,ac wedi llwyddo i sicrhau dros £180 000 i'w cynorthwyo. Mae ei frwdfrydedd dros ei gleientau, a'i ymdrechion ar eu rhan yn awgrymu cefnogaeth rhywun tipyn iau nag Ernest. Drwy ei agwedd broffesiynol, llwyddodd un o'i gleientau i godi dros £1000 i'r gangen yma o SSAFA.
Llongyfarchiadau iddo!

Enwebwyd gan Cyrnol John Egan – Cadeirydd SSAFA

Llongyfarchiadau a diolch i'r wyth ohonynt am roi eu hamser, ac am eu hymroddiad ffyddlon i'r gwahanol fudiadau.

Categori Grŵp

Grwp Gwella Tref Wyliau Bermo

Mae'r grwp yma wedi plannu 60 coeden palmwydd ar hyd promenâd yn Y Bermo. Maent hefyd wedi bod yn cyd-weithio gyda ysgol leol ar brosiectau a gosod meinciau ar y promenâd er mwyn gwella ardal boblogaidd o'r dref. Drwy ymdrechion y grwp yma, mae ymwelwyr a thrigolion Y Bermo yn mwynhau'r awyrgylch hamddenol, ac mae'r meinciau yn galluogi pawb i i fwynhau'r golygfeydd arbennig. Mae'r prosiect wedi ad-fywio'r ardal, ac wedi ysgogi eraill i wella'r amgylchedd yn y dref. Wrth gwrs, nid oes yr un prosiect yn llwyddo heb lawer iawn o waith called – cynllunio, codi arian ac ymroddiad di-flino. Mae llwyddiant y fenter mewn ardal ddifreintiedig yn glod iddynt, ac yn dangos beth ellir ei gyflawni mewn amser byr.
LLONGYFARCHIADAU i'r grwp.

Enwebwyd y Grwp Kevin Chambers o Ddyffryn Ardudwy.

Rhaid peidio anghofio, ychwaith, y rhai sydd wedi cymryd y drafferth i enwebu'r wyth unigolyn, a'r grŵp arbennig yma - heb eu hymdrech hwy, ni fuasai'n bosibl rhoi clod i'r enillwyr eleni. Felly diolch yn fawr iawn iddynt hwy, a chofiwch - bydd cyfle i enwebu eto dechrau'r flwyddyn nesaf !!